




Rhoi terfyn ar gaethwasiaeth fodern

Nodiadau Briffio Rhestr Fer Cynigion



Rhoi terfyn ar gaethwasiaeth fodern

Mae degau o filoedd o ddiodefwyr caethwasiaeth fodern o'r golwg yng ngolwg pawb yn y Deyrnas Unedig. Mae caethwasiaeth fodern yn achosi canlyniadau difrifol i iechyd a lles meddyliol goroeswyr. Mae FfCSyM yn galw ar y Llywodraeth i amddiffyn diodefwyr caethwasiaeth fodern yn y lle cyntaf ac i roi cymorth yn y tymor hirach i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau. Rydym yn galw ar ein haelodau i godi ymwybyddiaeth o ba mor gyffredin yw caethwasiaeth fodern ledled y gymdeithas ac i ymgyrchu i'w threchu.

Safbwynt y cynigydd

Mae'r cynigydd yn pryderu bod caethwasiaeth fodern yn broblem gynyddol yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Mae'n gobeithio pwysu ar y llywodraeth i gynyddu'r cymorth a'r amddiffyniad i ddiodefwyr a chynyddu ymwybyddiaeth o'r broblem ymysg aelodau SyM er mwyn iddynt allu sylwi ar yr arwyddion a rhoi gwybod am bryderon.

Maint y broblem

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd gymhleth sydd â nifer o ffurfiau gwahanol. Mae'n cynnwys caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl. Mae masnachwyr mewn pobl a chaethgludwyr yn gorfodi ac yn twyllo unigolion yn erbyn eu hewyllys i fywyd o gamdriniaeth, caethwasanaeth a thriniaeth annynol. Gellir camfanteisio'n rhywiol ar ddiodefwyr, eu gorfodi i weithio am dâl bach iawn neu ddim o gwbl, neu eu gorfodi i gyflawni gweithgareddau troseddol yn erbyn eu hewyllys.

'Does neb yn gwybod beth yw gwir faint caethwasiaeth fodern yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, ond mae'r amcangyfrifon gorau yn awgrymu bod oddeutu 40 miliwn o ddiodefwyr trwy'r byd i gyd. Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn amcangyfrif bod degau o filoedd o bobl mewn caethwasiaeth yn y Deyrnas Unedig heddiw. Mae troseddau caethwasiaeth fodern yn cael eu cyflawni ar draws y Deyrnas Unedig mewn llawer o wahanol sectorau gan gynnwys ffatrioedd, caeau, puteindai, barrau ewinedd a hyd yn oed yng nghartrefi pobl. Nid oes y fath beth â 'diodefwyr caethwasiaeth' nodweddiadol – gall diodefwyr fod yn ddynion, yn ferched neu'n blant o bob oed a chenedligrwydd. Yn ôl Byddin yr Iachawdwriaeth, rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Mehefin 2019 bu cynnydd o 63% yn nifer y diodefwyr yn y Deyrnas Unedig oedd wedi'u caethiwo trwy gamfanteisio ar weithwyr.

Y sefyllfa bresennol yn y Deyrnas Unedig

Yn 2015 pasiodd y Deyrnas Unedig y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a wnaeth nifer o newidiadau er mwyn ei gwneud yn haws erlyn masnachwyr mewn pobl a chynyddu'r dedfrydau am y troseddau hyn. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau mawr yn y Deyrnas Unedig gyhoeddi adroddiad ar sut maen nhw'n mynd i'r afael â chaethwasiaeth yn eu cadwyni cyflenwi byd-eang, a sefydlodd Gomisiynydd Atal Caethwasiaeth i'r Deyrnas Unedig i oruchwylio polisïau'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf wedi cael ei beirniadu am ganolbwyntio gormod ar blismona ac am beidio â rhoi amddiffyniad i'r diodefwyr.

Yn ôl Anti-Slavery International, erys nifer o heriau allweddol. Yn gyntaf, mae ar yr heddlu angen mwy o adnoddau i gyflawni ymchwiliadau. At hynny, mae achosion o hyd lle nad yw pobl yn cael eu credu, neu mae'r rheiny sy'n cael eu gorfodi i droseddu yn cael eu trin fel troseddwr. Yn ail, mae problemau o ran adnabod. Hefyd, mae problemau o ran cydnabod bod pobl o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ddiodefwyr masnachu mewn pobl ac felly mae'n bosibl nad ydynt yn cael yr amddiffyniad mae arnynt ei angen. Yn drydydd, darniog yw'r amddiffyniad a'r cymorth i ddiodefwyr. 'Does dim system o gymorth hirdymor i bob diodefwr ac mae'n rhaid i lawer symud allan o dai diogel cyn eu bod wedi ymadfer. Mae cyn-Gomisiynydd Atal Caethwasiaeth y Deyrnas Unedig, Kevin Hyland, wedi galw am well gymorth i ddiodefwyr ac am i heddluoedd gynnwys caethwasiaeth fodern yn eu cynlluniau er mwyn gwella cyfraddau euogfarnu.

Mae amddiffyn plant hefyd yn fater sy'n achosi pryder mawr. Fel rhan o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, cyflwynwyd gofyniad i sefydlu Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol yng Nghymru a Lloegr i gynrychioli diodefwyr caethwasiaeth fodern sy'n blant ac i sicrhau y caiff eu pennaf les ei gymryd i ystyriaeth mewn unrhyw benderfyniadau a wneir yn eu cylch. Erbyn hyn mae Eiriolwyr wedi cael eu cyflwyno mewn traean o'n hawdurdodau lleol, ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei gyflwyno'n llawn.



Mae'r elusen Unseen yn rhedeg llinell gymorth Caethwasiaeth Fodern. Trwy'r llinell gymorth mae mwy na 15,000 o ddiodefwyr posibl caethwasiaeth fodern wedi cael eu canfod hyd yma. Yn 2018 lansiodd Unseen ap (Unseen UK) sy'n galluogi pobl i sylwi ar arwyddion caethwasiaeth fodern a rhoi gwybod am bryderon yn gyfrinachol. Roedd ap tebyg oedd yn canolbwyntio ar fannau golchi ceir wedi cael ei lansio ynghynt gan Eglwys Loegr (Safe Car Wash App).

Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn darparu cymorth byrdymor i ddiodefwyr, fel arfer am hyd at 45 diwrnod, neu'r amser mae'r awdurdodau yn ei gymryd i benderfynu a yw rhywun yn cyfrif fel diodefwr caethwasiaeth. Ar ôl hynny mae'r cymorth yn dod i ben. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o ddiodefwyr symud allan o dŷ diogel heb unrhyw gymorth pellach wrth iddynt geisio ailadeiladu eu bywydau i ffridd o gaethwasiaeth. Wrth iddynt geisio ymdopi â'u trawma diweddar, maent yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae rhai mewn perygl o fod yn ddiartref ac mae llawer yn dod yn dargedau i fasnachwyr mewn pobl eto. Yn aml mae'r awdurdodau'n gweld diodefwyr caethwasiaeth yng nghyd-destun eu statws mewn fudo ac yn eu trin fel troseddwr mewn fudo yn hytrach na diodefwyr trosedd ddifrifol. Os nad oes gan ddiodefwyr sicrwydd cymorth parhaol, maent yn annhebygol o deimlo'n ddigon diogel i roi tystiolaeth i'r heddlu sy'n ymchwilio i'r bobl oedd yn eu dal.

Sut allai SyM weithio ar y mater hwn pe câi ei basio?

Byddai ymgyrch lawn yn cael ei datblygu gan FfCSyM pe câi'r cynnig ei basio, gan gymryd i ystyriaeth y datblygiadau ers hynny. Er mwyn helpu i lywio'ch trafodaethau, dyma rai ffyrdd y gallai SyM ystyried gweithio ar y mater hwn.

Ar lefelau lleol a rhanbarthol, gallai aelodau godi ymwybyddiaeth o ba mor gyffredin yw caethwasiaeth fodern ledled y gymdeithas a hyrwyddo'r llinell gymorth a'r apiau sy'n bodoli eisoes. Gallent weithio gydag elusennau sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r broblem a chynorthwyo dioddefwyr yn lleol.

Yn genedlaethol, gallai FfCSyM weithio gyda sefydliadau eraill i alw am well gymorth i ddiodeffwyr caethwasiaeth fodern oddi wrth y llywodraeth a phlisma.

Dadleuon o blaid y cynnig

- Mae hon yn broblem gynyddol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Gallai SyM helpu i hybu ymwybyddiaeth a gweithredu ar broblem sy'n gwaethygu ac nad yw'n cael ei deall gan lawer.
- Gallai'r mater hwn ategu gwaith FfCSyM ar drais yn erbyn merched a masnachu mewn pobl, a chynnal enw da SyM am weithredu arloesol ar faterion pwysig sydd o bosibl wedi'u cuddio o olwg y cyhoedd.

Dadleuon yn erbyn y cynnig

- Mae hwn yn fater cymhleth ac mae nifer o sefydliadau eisoes yn ymgyrchu am well gymorth i ddiodeffwyr, felly a oes rhagor y gall SyM ei ychwanegu?
- Cafodd Bil Aelod Preifat ei ailgyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ym mis Ionawr 2020 sy'n cynnwys darpariaethau i wella cymorth i ddiodeffwyr caethwasiaeth fodern.

Rhagor o wybodaeth

Unseen: www.unseenuk.org

Anti-Slavery International: www.anti-slavery.org

Freedom United: www.freedomunited.org

Cynnwys fideo

Mae'r fideo hwn oddi wrth y Swyddfa Gartref yn cynnwys gwybodaeth am gaethwasiaeth fodern yn y Deyrnas Unedig:

https://www.youtube.com/watch?v=Jv1H_fAoOG4

Manylion cyswllt yr adran Materion Cyhoeddus

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynigion neu'r broses cynigion, cysylltwch ag adran Materion Cyhoeddus FfCSyM.

Post: National Federation of Women's Institutes, 104 New Kings Road, London, SW6 4LY

Ffôn: 020 7371 9300

E-bost: publicaffairs@nfw.org.uk

Gwefan: thewi.org.uk